# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 29 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(33)

**Gwahoddodd y Llywydd y Cynulliad i sefyll am funud o dawelwch er cof am Gary Speed.**

**13.31**
**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**14.28**
**2. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Trosglwyddwyd cwestiwn 8 i'w ateb yn ysgrifenedig.

**15.13**
**3. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth**

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 12 yn ôl.

**Datganiad gan y Llywydd**

Cyhoeddodd y Llywydd fod Peter Black a Mohammad Asghar wedi ennill balot yr Aelodau i gyflwyno cynigion ar gyfer deddfwriaeth. Caiff Peter Black a Mohammad Asghar, felly, geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil arfaethedig Aelod ynghylch Cartrefi mewn Parciau a Menter yn y drefn honno.

**16.04**
**4. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**16.15**
**5. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Addysg Uwch**

**17.00**
**6. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cyflwyno Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)**

**17.25**
**7. Dadl ar Ddiwygio'r PAC**

**NDM4865 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bod cael y fargen orau i Gymru yn flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru wrth ddiwygio'r PAC.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod ei bod yn hanfodol diogelu dyfodol ffermydd teulu yng Nghymru yn ystod trafodaethau am ddiwygio'r PAC.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n adeiladol â Llywodraeth y DU i wrthwynebu 'gwyrddio' Colofn 1.

**Tynnwyd gwelliant 2 yn ôl.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r effaith anghymesur a gaiff diwygio'r PAC ar systemau fferm gwahanol ac yn cydnabod bod angen trefniadau trosiannol priodol.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NDM4865 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bod cael y fargen orau i Gymru yn flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru wrth ddiwygio'r PAC.

Yn cydnabod ei bod yn hanfodol diogelu dyfodol ffermydd teulu yng Nghymru yn ystod trafodaethau am ddiwygio'r PAC.

Yn nodi'r effaith anghymesur a gaiff diwygio'r PAC ar systemau fferm gwahanol ac yn cydnabod bod angen trefniadau trosiannol priodol.

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Daeth y cyfarfod i ben am 18.13

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:00 ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2011**